

Memorandwm Esboniadol i God Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb y Cwricwlwm i Gymru

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o'r Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ddisgwyliedig yn y Cwricwlwm i Gymru. Rwy'n fodlon bod y buddiannau'n cyfiawnhau'r costau tebygol.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

23 Tachwedd 2021

RHAN 1 – Memorandwm Esboniadol

1. Disgrifiad

- 1.1 Yn unol ag adran 8 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (y Ddeddf) mae'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn nodi'r themâu a'r materion sydd i'w cwmpasu gan yr elfen orfodol o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Ni nodwyd unrhyw faterion penodol.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Cyhoeddir y Cod yn unol ag adran 8 o'r Ddeddf.
- 3.2 Mae adran 77(2) o'r Ddeddf yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru cyn cyhoeddi neu ddiwygio'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb:
 - a) ymgynghori â'r personau hynny sy'n briodol yn eu barn hwy
 - b) gosod gerbron y Senedd ddrafft o'r Cod arfaethedig (neu ddiwygiadau i'r Cod arfaethedig).
- 3.3 O dan adran 8(2) a (3) o'r Ddeddf, nid yw cwricwlwm yn cwmpasu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth yn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Nid yw'r addysgu a'r dysgu ychwaith yn cwmpasu elfen orfodol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth yn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- 3.4 Mae adrannau 24(2) (ysgolion a gynhelir a lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir), 50(4) (addysg heblaw yn yr ysgol) ac adran 53(4) (addysg heblaw yn yr ysgol mewn lleoliad nad yw'n uned cyfeirio disgyblion) o'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i'r Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn briodol i ddatblygiad disgyblion.
- 3.5 Bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei addysgu ar draws y cwricwlwm ac mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gynnwys y dysgu craidd, fel y nodir yn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, yn eu cwricwlwm.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Mae diben ac effaith fwriadedig y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cysylltu'n uniongyrchol â'r hyn a nodir yn y [Memorandwm Esboniadol a'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol](#) ar gyfer y Ddeddf.
- 4.2 Yn gryno, mae adran 8(1) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod sy'n nodi'r themâu a'r materion gorfodol ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae hyn yn golygu'r meysydd y mae'n rhaid i ysgolion, dysgwyr sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol a lleoliadau meithrin nas cynhelir ac ariennir eu cwmpasu yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer yr elfen orfodol benodol hon.

Cefndir

- 4.3 Cyhoeddwyd Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar 28 Ionawr 2020. Cyn iddo gael ei gyhoeddi, roedd y Fframwaith yn destun ymgynghoriad eang a helaeth. Dangosodd yr adborth a gafwyd pa ganllawiau penodol ychwanegol y byddai eu hangen ar ysgolion a lleoliadau er mwyn cynllunio a chyflwyno eu cwricwlwm eu hunain yn llwyddiannus. Bydd y fframwaith yn cynnwys nifer o ddogfennau canllaw a gynlluniwyd i gynorthwyo ysgolion a lleoliadau eraill i gynllunio eu cwricwla.
- 4.4 Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ofyniad statudol yn Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr 3-16 oed. Mae'n rhan o'r maes dysgu a phrofiad ehangach (Maes) ar gyfer lechyd a Lles, ond mae hefyd yn drawsbynciol, gan ddefnyddio gwahanol feysydd dysgu a phrofiad a disgyblaethau pwnc.
- 4.5 Mae'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gorfodol hwn yn helpu ysgolion i gynllunio eu haddysg yn y pwnc hwn. Mae'r cynnwys wedi'i osod yng nghyd-destun llinynnau dysgu eang sydd wedi'u cydgysylltu, sef:
- 4.5.1 Cydberthnasau a hunaniaeth;
 - 4.5.2 lechyd rhywiol a lles;
 - 4.5.3 Grymuso, diogelwch a pharch.
- 4.6 Mae'r llinynnau hyn yn caniatáu i ymarferwyr gynllunio a datblygu cwricwlwm sydd wedi'i deilwra i'w dysgwyr, sy'n creu cysylltiadau ac sy'n datblygu cyd-destunau dysgu dilys ym mhob rhan o'r cwricwlwm.
- 4.7 Mae gan Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb rôl gadarnhaol ac amddiffynnol yn addysg dysgwyr. Mae gan ysgolion a lleoliadau rôl bwysig i'w chwarae o ran creu amgylcheddau diogel a grymusol a chefnogi hawl dysgwyr i ffynhau cydberthnasau boddhaus, iach a diogel drwy gydol eu bywydau.
- 4.8 Helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, yn seiliedig ar gydymddiriedaeth a pharch yw sylfaen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Mae'r cydberthnasau hyn yn hanfodol i ddatblygiad lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn galluogi dysgwyr i ddatblygu cydberthnasau sy'n gwbl gynhwysol, gan adlewyrchu amrywiaeth a hyrwyddo parch.

- 4.9 Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn un o themâu trawsbynciol fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Bydd yr adran honno o'r fframwaith yn ymgorffori'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gorfodol.
- 4.10 Bydd y fframwaith hefyd yn cynnwys canllawiau statudol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a gyhoeddir o dan adran 71 o'r Ddeddf. Bydd y canllawiau hynny'n rhoi cymorth i ddatblygu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn cwricwlwm fel maes dysgu gorfodol ynddo'i hun, a hefyd fel thema drawsbynciol sy'n rhychwantu pob maes dysgu a phrofiad.

5. Ymgynghori

- 5.1 Mae adran 77(2) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau sy'n briodol (os o gwbl) yn eu barn nhw cyn cyhoeddi neu ddiwygio'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- 5.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol 8 wythnos o hyd rhwng 21 Mai a 16 Gorffennaf 2021 ar y Cod drafft. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod y cyfnod ymgynghori'n osgoi etholiadau'r Senedd a'i fod yn cael ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn academaidd. Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo i gynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol yn cynnwys ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Comisiynydd Plant Cymru, grwpiau plant, Estyn, undebau athrawon a rhanddeiliaid ehangach.
- 5.3 Derbyniwyd dros 850 o ymatebion drwy'r broses ymgynghori. Roedd nifer o'r ymatebion hyn yn fanwl. Mae [dogfennau'r ymgynghoriad a chrynodebau o'r ymatebion](#) ar gael ar-lein.
- 5.4 I grynhoi, roedd cefnogaeth eang i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gan randdeiliaid ac ymarferwyr, a chafwyd rhai awgrymiadau ar gyfer ei gwella. Yn gyffredinol, codwyd ystod amrywiol o safbwyntiau a sylwadau yn yr ymatebion ffurfiol ac yn yr ymatebion a gafwyd drwy'r grwpiau ffocws. Roedd hyn yn cynnwys sylwadau ar y canllawiau, yn ogystal ag arsylwadau a sylwadau ehangach ar addysg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- 5.5 Mae'r gwaith o fireinio'r canllawiau statudol a'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi'i lywio gan adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r disgwyliadau fel yr amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru. Ochr yn ochr â hyn, ystyriwyd tystiolaeth gan amrywiaeth o arbenigwyr a rhanddeiliaid.
- 5.6 Lluniwyd y canllawiau statudol a'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gan ymarferwyr drwy broses gyd-gynhyrchu gyda chymorth arbenigwyr a rhanddeiliaid eraill. Roedd yr adborth o'r cyfnod ymgynghori'n rhan o'r broses hon ac mae wedi arwain at fireinio'r canllawiau a'r Cod ymhellach.

5.7 Mae'r adran hon yn esbonio newidiadau i'r Cod drafft lle maent yn wahanol i'r fersiwn yn yr ymgynghoriad.

Yn y canllawiau statudol:

- Darparu naratif manylach ar y rhesymau 'pam' fod angen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, gan atgyfnerthu pwysigrwydd y maes hwn o'r cwricwlwm;
- Agweddau cryfach ar y naratif ar 'Hawliau a thegwch' i sicrhau bod hyn wrth wraidd dull gweithredu ysgol a chynnwys erthyglau perthnasol CCUHP;
- Egwyddorion datblygedig a diffiniedig pellach ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb;
- Sicrhau bod egwyddorion a chynnwys ar ddiogelu, ar-lein ac all-lein, yn glir gyda chysylltiadau â deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol;
- Ehangu'r egwyddor sy'n ymwneud â chynnwys rhieni, gofalmwr a chymuned ehangach yr ysgol wrth ddatblygu'r ddarpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb;
- Nodi'r 'dull ysgol gyfan' mewn ffordd a fydd o gymorth i ysgolion ac i ddarparu cysylltiadau clir ag unrhyw ganllawiau yn y maes hwn yn y dyfodol;
- Diwygio'r adran gofynion cyfreithiol i sicrhau ei bod yn gliriach;
- Gwirio pob diffiniad o eirfa;
- Sicrhau bod diben a statws y Cod yn gwbl glir i ysgolion;
- Rhoi manylion am sut y gall pob Maes Dysgu a Phrofiad gefnogi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn effeithiol.

Yn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb:

- Cyfeiriadau cliriach at yr addysgeg gysylltiedig;
- Cynnwys cyfeiriadau cliriach at gyfeillgarwch;
- Darparu mwy o fanylion ym mhob llinyn;
- Sicrhau bod yr agweddau LHDTG+ yn ddigon clir a bod digon o bwyslais arnynt;
- Cynnwys digon o fanylion am "lechyd atgenhedlol" fel ei fod yn gliriach i ymarferwyr;
- Adolygu priodoldeb datblygiadol yr elfennau gwahanol a diwygio'r oedrannau nodweddiadol lle dylai dysgwyr ymgysylltu â'r cyfnodau a nodir yn y Cod.

Cynllun peilot Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

5.8 Yn ogystal ag ymgynghoriadau ffurfiol ar gynigion, aeth Llywodraeth Cymru ati i gasglu sylwadau a safbwyntiau cymunedau ysgolion a rhanddeiliaid eraill am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb drwy amrywiaeth o weithgareddau. Roedd hyn yn cynnwys cynllun peilot ar draws detholiad o ysgolion mewn un awdurdod lleol yng Nghymru.

- 5.9 Dechreuodd y peilot yn ystod tymor yr hydref, ac mae'n parhau tan fis Chwefror 2022. Mae'n casglu sylwadau a safbwyntiau ysgolion ac ymarferwyr tuag at y canllawiau a'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb drafft sy'n bwydo i mewn i'r gwaith mireinio. Casglwyd adborth ehangach hefyd sydd bellach yn llywio polisi, rhaglenni, dysgu proffesiynol a gwaith i ddatblygu adnoddau.
- 5.10 Roedd yr ysgolion a gymerodd rhan yn gefnogol ar y cyfan i'r Cwricwlwm i Gymru, a'r dull o ymdrin ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn benodol. Roedd hyn yn cynnwys cyfeiriadedd y cwricwlwm newydd, gan gynnwys mwy o ffocws ar les dysgwyr a phwysigrwydd hawliau dysgwyr, yn ogystal â'r egwyddorion addysgeg sylfaenol sy'n sail i'r dull gweithredu.

Gwaith ymgynghorol ehangach

- 5.11 Mae amrywiaeth o ymgynghoriadau'n ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru hefyd wedi ystyried Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Rhestrir crynodeb o'r ymgynghoriadau perthnasol isod.

Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol - Cynigion ar gyfer fframwaith deddfwriaethol newydd

- 5.12 Roedd yr ymgynghoriad Papur Gwyn hwn, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2019, yn ceisio barn ar y cynigion ar gyfer deddfwriaeth ar strwythur fframwaith y cwricwlwm newydd, gyda'r pedwar diben yn ganolog iddo, y chwe maes dysgu a phrofiad, y Gymraeg a'r Saesneg, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Roedd hefyd yn nodi bwriadau ehangach ar gyfer asesu dysgwyr a gwerthuso ysgolion. Cafwyd 2,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan weithwyr addysg proffesiynol, y trydydd sector, grwpiau buddiant ac aelodau o'r cyhoedd. Gweler y ddolen [hon](#) am yr adroddiad ar y crynodeb o'r ymatebion a luniwyd gan Arad Research.

Canllawiau drafft ar addysg cydberthynas a rhywioldeb

- 5.13 Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar ganllawiau diwygiedig i ysgolion er mwyn darparu cymorth mwy cynhwysfawr i athrawon. Cyflwynodd y canllawiau drafft, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori ym mis Chwefror 2019, gynigion i:
- newid enw'r maes astudio o 'Addysg Rhyw a Pherthnasoedd' i 'Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb' (RSE);
 - cefnogi ysgolion i strwythuro Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn agosach at y ffordd y bydd yn gweithio yn y cwricwlwm newydd; a
 - hyrwyddo 'dull ysgol gyfan' sy'n cysylltu darpariaeth, polisi, staff a'r gymuned ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Cwricwlwm drafft Cymru 2022

- 5.14 Ym mis Ebrill 2019 cyhoeddwyd y canllawiau drafft ar y Cwricwlwm newydd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Nodwyd y canllawiau mewn cyfres o adrannau'n amlinellu cynnwys arfaethedig y canllawiau ar y meysydd dysgu a phrofiad. I ategu'r broses hon, comisiynwyd Dynamix i ofyn am adborth gan blant a phobl ifanc. Fe wnaethant ddefnyddio tri dull i wneud hyn: datblygu ffurflen adborth ar-lein; cynnal 24 o grwpiau ffocws gan gynnwys grwpiau cynradd, uwchradd a nodweddion gwarchoddedig; a llunio pecyn cymorth i arweinwyr ieuencid ei ddefnyddio i gasglu barn ymhlith eu grwpiau.
- 5.15 Bwriad yr ymgynghoriad oedd cefnogi a llywio ymdrechion parhaus i fireinio a gwella'r cwricwlwm cyn iddo gael ei gyflwyno mewn ystafelloedd dosbarth o 2022. Roedd yn canolbwyntio ar y cwricwlwm ehangach, yn enwedig y dogfennau ategol, yn hytrach na'r fframwaith deddfwriaethol. Mae'r adroddiad sy'n nodi dadansoddiad gan Dynamix o'r adborth gan blant a phobl ifanc ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn

- 5.16 Roedd yr ymgynghoriad hwn, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019, yn gofyn barn ar y goblygiadau ymarferol ar y cynnig i sicrhau mynediad i'r cwricwlwm newydd o beidio â chynnwys darpariaethau yn y Ddeddf i alluogi hawl rhieni i dynnu'n ôl o addysg grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Gofynnodd hefyd am farn ar newidiadau posibl i'r teitl ar gyfer addysg grefyddol, a fyddai'n fwy disgrifiadol o'r addysgu a'r dysgu yn y pwnc.

<https://llyw.cymru/sicrhau-mynediad-ir-cwricwlwm-llawn>

Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6 Trosolwg o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

- 6.1 Mae'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ffurfio rhan annatod o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru sydd, ynghyd â'r dyletswyddau a'r gofynion eraill a roddwyd ar ysgolion a lleoliadau o dan y Ddeddf, yn rhoi eglurder a disgwyliadau cenedlaethol ar y modd y mae'n rhaid datblygu cwricwlwm.
- 6.2 Cynhaliwyd dadansoddiad manwl o'r costau, y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm ac elfen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb y cwricwlwm. Nodir hyn yn y [Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol](#) ar gyfer y Ddeddf a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2021 ac a ddiweddarwyd yn ddiweddar. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i ddiweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol erbyn diwedd 2021.

Asesiadau effaith

- 6.34 Mae'r broses o asesu effaith mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru yn mynd rhagddi. O ganlyniad, mae amrywiaeth o asesiadau effaith eisoes wedi'u cyhoeddi ac, mewn rhai achosion, eu diweddarau'n ddiweddar sy'n ymwneud yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol â'r gofynion ar ysgolion a lleoliadau a nodir yn y Codau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys yr isod:
- Ym mis Ebrill 2021, cyhoeddwyd gwybodaeth fanwl ar y costau, y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm ar draws y system ac ar gyfer ysgolion a lleoliadau yn y [Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol](#) ar gyfer y Ddeddf.
 - Yr [asesiad effaith integredig ar ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru](#) – sy'n cynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020.
 - Cyhoeddwyd [asesiad effaith integredig](#) o'r modd y byddai cynigion ar gyfer deddfwriaeth Cwricwlwm ac Asesu yn effeithio ar addysgu a dysgu ym mis Gorffennaf 2020.
 - [Sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn: asesiad o'r effaith ar hawliau plant](#) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020.
 - [Canllawiau ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022: asesiad o'r effaith ar hawliau plant](#) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020.
 - Y ffurflen [nodi'r effaith ar y system gyfiawnder](#) a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2018.

7. Opsiynau

- 7.1 Ystyriwyd opsiynau ynghylch statws Canllawiau Statudol a Chod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gan Weinidogion (ac fe'u trafodwyd gan Aelodau'r Senedd) yn ystod hynt y Ddeddf rhwng 2020 a 2021. O ganlyniad, cwmpesir hyn yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf.
- 7.2 Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn ffordd sy'n cyfrannu at ddatblygu dinasyddion moesegol, gwybodus sy'n 'deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd' ac yn 'parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol'. Mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio fel continwmm ar gyfer pob dysgwr o 3-16 oed a bydd y polisi'n effeithio'n bennaf ar y grŵp oedran hwn.
- 7.3 Rhan o'r rhesymeg dros gynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel elfen orfodol yn y cwricwlwm newydd yw pwysigrwydd ei gyfraniad i'r pedwar diben; mae'n annhebygol y gallai rhai o'r nodweddion allweddol gael eu sicrhau gan ddysgwyr heb fynediad i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- 7.4 Nododd adborth a gafwyd i'r ymgynghoriad eang yn 2019 ar ganllawiau drafft y Cwricwlwm i Gymru (gweler: [Y Cwricwlwm i Gymru 2022: canllawiau | LLYW.CYMRU](#)) y dylid cyhoeddi canllawiau manylach ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o ystyried y bydd y maes hwn o'r cwricwlwm yn statudol, a hefyd o ystyried natur sensitif ac arbenigol y maes pwnc.
- 7.5 Felly, bydd y canllawiau statudol manwl a'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a ddatblygwyd yn helpu ysgolion i gynllunio darpariaeth sy'n briodol ac yn hygyrch i'w dysgwyr.

Opsiynau a ystyriwyd wrth basio Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

Opsiwn 1: Dim Cod

- Gallai opsiwn i beidio â chael cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb arwain at ddiffyg arweiniad, eglurder a manylion ar gyfer ysgolion a lleoliadau sy'n ofynnol wrth gynllunio eu cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae'n bosibl y gallai materion pwysig gael eu hanwybyddu a byddai dysgwyr yn colli allan ar ddysgu hanfodol. Gallai hefyd arwain at anghysondeb yn y dull o gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar draws Cymru.

Opsiwn 2: Dibynnu ar ganllawiau statudol

- Mae canllawiau statudol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn nodi manylion y mae'n rhaid i ysgolion a lleoliadau eu hystyried wrth gynllunio'r maes gorfodol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Er y bydd yn nodi'r gofyniad bod yn rhaid i ddysgu fod yn briodol i ddatblygiad plentyn, nid yw'n nodi'r dysgu craidd sydd i'w gyflwyno a phryd.

Opsiwn 3: Cael Cod

- Yr opsiwn y cytunwyd arno oedd cynnwys gofyniad yn y Ddeddf i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn nodi'r dysgu craidd sydd i'w wneud. Mae hyn yn golygu'r meysydd y mae'n rhaid i ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir eu cynnwys yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer yr elfen orfodol benodol hon.
- Mae'n bwysig nodi nad yw dileu'r hawl i dynnu'n ôl o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi'i fwriadu i gymryd lle rôl hanfodol rhieni wrth addysgu eu plant. Pwysigrwydd y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yw ei gwneud yn glir bod yn rhaid darparu'r dysgu sy'n briodol yn ddatblygiadol drwy Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn modd sensitif a chynhwysol i'w ategu. Mae'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn rhoi eglurder i ysgolion, rhieni/gofalwyr a dysgwyr gan sicrhau cysondeb o ran darparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar draws pob ysgol yng Nghymru.

8. Costau a buddiannau

- 8.1 Fel y nodir yn adran 6 uchod, ni chynhaliwyd unrhyw ddadansoddiad costau a manteision yn benodol ar yr elfennau o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a nodir yn y Cod hyn. Fodd bynnag, nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw gostau ychwanegol i'r system addysg yn codi o'r Cod hyn uwchlaw'r hyn a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.
- 8.3 Heb y Cod, byddai gan ysgolion a lleoliadau lai o eglurder a sicrwydd wrth gynllunio elfen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb eu cwricwlwm.

9. Asesiad o'r gystadleuaeth

- 9.1 Prawf hidlo'r gystadleuaeth:

Cwestiwn	Ateb
C1: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o'r farchnad sy'n fwy na 10%?	Na
C2: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o'r farchnad sy'n fwy nag 20%?	Na
C3: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd gyfran o'r farchnad sy'n fwy na 50%?	Na
C4: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio llawer mwy ar rai cwmnïau o gymharu ag eraill?	Na
C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau?	Na

Cwestiwn	Ateb
C6: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i ddarpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd, nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na
C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na
C8: A yw'r sector wedi'i nodweddu gan newid technolegol cyflym?	Na
C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion?	Na

- 9.2 Ni fydd y darpariaethau yn y Cod drafft yn effeithio ar fusnesau nac elusennau na'r sector gwirfoddol mewn ffyrdd sy'n codi materion o ran cystadleuaeth. Ni chymhwyswyd prawf hidlo'r gystadleuaeth.
- 9.3 Ni ddisgwylir i'r darpariaethau yn y Cod drafft gael unrhyw effaith ar gystadleuaeth na gosod unrhyw gyfyngiadau ar gyflenwyr newydd na chyflenwyr presennol. Fel y nodir yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 6.3, disgwylir mai cyrff cyhoeddus, sydd eisoes yn talu'r costau hyn, fydd yn gorfod talu'r mwyafrif o'r costau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth.
- 9.4 Ni ddisgwylir i'r ddeddfwriaeth gael unrhyw effaith negyddol ar fusnesau bach a chanolig (BBaChau) yng Nghymru.

10. Adolygiad ar ôl gweithredu

- 10.1 Bydd y gwaith o weithredu'r Codau mewn ysgolion a lleoliadau yn mynd rhagddo hyd at flwyddyn academaidd 2026/27 wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno mewn ysgolion a lleoliadau. Bydd adolygiad o'r broses o'u gweithredu yn rhan o'r adolygiad gweithredu ehangach a nodir yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 6.3 uchod.
- 10.2 Nid yw'r rhaglen ehangach o werthuso diwygiadau'r cwricwlwm (gweler: [Cwricwlwm i Gymru: Cynllun gweithredu – Hwb \(llyw.cymru\)](#)) wedi'i gynllunio fel asesiad ôl-weithredol unigol o effeithiau. Yn hytrach, mae'n broses ddysgu barhaus, gyda gwerthusiad o effeithiau yn rhan bwysig ohoni. Bydd gwerthusiad o effaith yn ystyried canlyniadau diwygiadau wrth iddynt ddod yn weithredol ac ar ôl cyfnod digonol i adael i ganlyniadau tymor hwy ddod i'r amlwg.